Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw)

Mawrth 2024

## Y cefndir

**1.** Cyflwynwyd y Bil Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin gan Mark Spencer AS ar 4 Rhagfyr 2023.[1] Gosododd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil gerbron y Senedd ar 19 Rhagfyr 2023. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ymwneud â'r Bil cyfan ac eithrio nifer fach o gymalau sy'n berthnasol i'r Alban neu Loegr yn unig.[2]

**2.** Ar 9 Ionawr, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, gan nodi mai'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad oedd 15 Mawrth 2024. Ar 20 Chwefror 2024, newidiodd y Pwyllgor Busnes y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad o 15 Mawrth i 8 Mawrth 2024.

### Gwybodaeth am y Bil

**3.** Mae enw hir y Bil yn nodi mai ei ddiben yw gwahardd allforio mathau penodol o dda byw o Brydain Fawr i'w lladd. Mae'n cynnwys saith cymal ac mae yn y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi ar hyn o bryd.

**4.** Mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn datgan mai amcan polisi'r Bil yw gwahardd allforio gwartheg, defaid, geifr, moch a cheffylau (da byw perthnasol, neu "relevant livestock") i'w lladd, gan gynnwys i'w pesgi i'w ladd wedi hynny. Nid yw'r gwaharddiad arfaethedig ond yn berthnasol i allforio, neu drefnu i allforio, da byw perthnasol sy'n dechrau ym Mhrydain Fawr, neu sy'n croesi

[1] Y Bil Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) – Parliament.uk
[2] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) – Senedd.Cymru

drwyddi wrth deithio i’r tu allan i Ynysoedd Prydain (bydd hyn yn cwmpasu holl Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd (yr UE) a thrydydd gwledydd eraill).[3]

# Y darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

## Y Rheolau Sefydlog

**5.** Mae Rheol Sefydlog 29 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol pan fydd Bil y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru:

- at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (ac eithrio darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, dros dro, atodol neu ddarpariaethau arbed sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd); neu
- sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

## Cymal 1 – Gwahardd allforio da byw i'w ladd

**6.** Mae cymal 1 o’r Bil yn ei gwneud yn drosedd allforio da byw perthnasol i'w lladd. Mae da byw perthnasol yn cynnwys:

a. gwartheg ac anifeiliaid buchol eraill,

b. ceffylau ac anifeiliaid ceffylaidd eraill,

c. defaid,

d. geifr, neu

e. foch neu faeddod gwyllt.

## Cymal 2 – Rheoliadau ynghylch gorfodi adran 1

**7.** Mae is-adran (1) o'r cymal hwn yn rhoi'r pŵer i’r awdurdod cenedlaethol priodol (Gweinidogion Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion yr Alban) wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer gorfodi'r gwaharddiad ar allforio anifeiliaid byw i'w lladd (“y rheoliadau gorfodi”).

[3] Nodiadau Esboniadol y Bil – Parliament.uk

**8.** Mae is-adrannau (2) a (3) yn darparu rhestrau nad ydynt yn gynhwysfawr o'r hyn y caiff y rheoliadau gorfodi hyn ddarparu ar ei gyfer, gan gynnwys pwerau mynediad, pwerau i ymafael neu gadw, i greu troseddau ac i osod sancsiynau sifil.

**9.** Mae is-adran (4) yn cyfyngu'r rheoliadau gorfodi sy'n rhoi pŵer mynediad mewn perthynas ag annedd breifat heb gydsyniad y meddiannydd neu gan ddefnyddio grym rhesymol oni bai bod y pŵer yn cael ei arfer o dan awdurdod gwarant.

**10.** Mae is-adran (5) yn egluro cwmpas y pŵer yn is-adran (4) o gymal 3 i wneud darpariaeth ar gyfer gosod sancsiynau sifil mewn rheoliadau sy'n ymwneud â gorfodi cymal 1.

**11.** Mae is-adran (6) yn egluro cwmpas troseddau y gellir eu creu mewn perthynas â rheoliadau a wneir o dan is-adran (1).

## Cymal 3 – Adran 2: atodol

**12.** Mae cymal 3 yn diffinio awdurdod cenedlaethol priodol (“appropriate national authority”), cosb sifil (“civil sanction”) a deddfiad (“enactment”) at ddibenion cymal 2.

**13.** Mae is-adran (3) yn darparu na chaiff yr Ysgrifennydd Gwladol ond wneud rheoliadau gorfodi sy'n cynnwys darpariaethau y gallai Gweinidogion Cymru neu Weinidogion yr Alban eu gwneud gyda’u cydsyniad.

## Cymal 4 – Rheoliadau gorfodi: gweithdrefn etc

**14.** Mae cymal 4 yn darparu bod rhaid i reoliadau gorfodi a wneir o dan gymal 2 gael eu gwneud drwy offeryn statudol o dan y weithdrefn gadarnhaol (neu weithdrefn gyfatebol yn Senedd yr Alban a Senedd Cymru) ac y cânt gynnwys darpariaethau canlyniadol, deilliadol, trosiannol neu ddarpariaethau arbed ac y cânt gynnwys darpariaethau gwahanol at ddibenion a meysydd gwahanol.

## Cymal 5 – Diddymiadau cysylltiedig mewn perthynas â cheffylau

**15.** Mae cymal 5 yn diddymu adrannau 40 i 49 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (darpariaethau yn ymwneud ag allforio ceffylau) ac mae hefyd yn gwneud diwygiadau eraill i'r Ddeddf honno sy'n ganlyniadol i ddiddymu’r adrannau hynny.

## Cymal 6 – Swyddogaethau cydredol yng Nghymru

**16.** Mae cymal 2 o’r Bil yn creu pwerau y gellir eu harfer yn gydredol gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru. Mae cyfyngiadau yn Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn atal y Senedd rhag dileu, heb gydsyniad Llywodraeth y DU, swyddogaeth sydd gan un o Weinidogion y Goron sy'n cael ei harfer yn gydredol neu ar y cyd â Gweinidogion Cymru.

**17.** Mae'r cymal hwn yn datgymhwyso'r cyfyngiadau perthnasol mewn cysylltiad â'r pwerau cydredol yn y Bil hwn drwy ychwanegu'r Bil at y rhestr o ddeddfiadau ym mharagraffau 9(8)(b) ac 11(6)(b) o Atodlen 7B. Bydd hyn yn caniatáu i'r Senedd newid y trefniadau cydredol sy'n ymwneud â materion datganoledig heb fod angen cydsyniad Llywodraeth y DU.

## Cymal 7 – Rhychwant, cychwyn ac enw byr

**18.** Mae is-adran (1) yn nodi rhychwant tiriogaethol y darpariaethau yn y Bil. Mae is-adran (2) yn darparu bod cymal 1 a chymal 5 yn dod i rym yn unol â rheoliadau cychwyn a wneir gan yr awdurdod cenedlaethol priodol. Mae is-adran (3) yn darparu bod cymalau 2, 3, 4, 6 a 7 yn dod i rym ar yr adeg y rhoddir y Cydsyniad Brenhinol.

**19.** Mae is-adrannau (4) i (8) yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion yr Alban wneud darpariaethau trosiannol neu ddarpariaethau arbed mewn rheoliadau sy'n cychwyn darpariaethau yn y Bil. Mae is-adran (9) yn darparu mai enw byr y Bil fydd Deddf Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) 2024 ar ôl iddo ddod yn Ddeddf.

## Barn Llywodraeth y DU o ran cydsyniad

**20.** Mae Llywodraeth y DU o’r farn bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 1-5 (ac eithrio cymal 5(b)) a chymal 7). Yn y Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil, mae esboniad o safbwynt Llywodraeth y DU o ran y cymalau o'r Bil y cred y mae angen cydsyniad ar eu cyfer:

> *“The Bill relates to animal welfare, which is a devolved matter. Apart from clause 6, the Bill is within the legislative competence of the Scottish Parliament. Apart from clause 6 and clause 5(b), the Bill is within the legislative competence of the Senedd Cymru.*
>
> *There is a convention that Westminster will not normally legislate with regard to matters that are within the legislative competence of the Scottish Parliament, Senedd Cymru or the Northern Ireland Assembly without the consent of the legislature concerned.*
>
> *For the provisions of the Bill that fall within the legislative competence of the Scottish Parliament and Senedd Cymru, the legislative consent procedure would be appropriate. A legislative consent motion is the means by which a devolved legislature indicates that it is content for the UK Parliament to pass a law on a devolved matter.”*

### Barn Llywodraeth Cymru o ran cydsyniad

**21.** Mae paragraffau 11 a 12 o Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn nodi bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 1-7 o'r Bil, ond bod rhai darpariaethau yn y cymalau hynny nad oes angen cydsyniad ar eu cyfer, oherwydd eu bod yn gymwys o ran yr Alban neu Loegr yn unig. Nodir fel a ganlyn yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol:

> *“Mae'r Bil yn nodi fframwaith cyfreithiol newydd sy'n gwahardd allforio da byw perthnasol yn fyw at ddibenion eu lladd neu eu pesgi ar gyfer eu lladd ac o'r herwydd mae pob cymal ynddo'n gysylltiedig â'i gilydd, ac yn faterion o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.*
>
> *Mae angen cydsyniad ar gyfer y Bil cyfan felly, ac eithrio ar gyfer darpariaethau sy'n gymwys o ran yr Alban neu Loegr yn unig. Y darpariaethau hynny nad oes angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol arnynt yw cymalau 1(6)(b), 2(4)(b), 4(5), 5(b), 7(1)(a), 7(2)(a) a (b), 7(4) a 7(5).”*

### Safbwynt y Pwyllgor o ran cydsyniad

**22.** Mae’r Pwyllgor yn cytuno â barn Llywodraeth Cymru o ran cydsyniad. Cred yr Aelodau fod angen cydsyniad y Senedd ar gymalau 1-5 a chymal 7 o'r Bil – gyda rhai eithriadau pan fo'r cymalau’n ymwneud â Lloegr neu'r Alban yn unig. Y rheswm am y farn honno yw am fod yr holl gymalau hynny’n gwneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig, sef lles anifeiliaid. Mae’r Aelodau o’r farn bod angen cydsyniad ar gymal 6 oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**Conclusion 1.** Mae'r Pwyllgor o’r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y Bil cyfan, ac eithrio cymalau 1(6)(b), 2(4)(b), 4(5), 5(b), 7(1)(a), 7(2)(a) a (b), 7(4) a 7(5).

## Y safbwynt o ran polisi

### Llywodraeth y DU

**23.** Nodir yn y Nodiadau Esboniadol sy’n cyd-fynd â’r Bil: “there have been a number of campaigns by animal welfare organisations since the 1990s, aiming either to end live animal exports for slaughter or to limit how far an animal can be transported on welfare grounds. The topic was highlighted at the time of the EU referendum as a benefit of leaving the EU”.[4]

**24.** Mae'r Nodiadau yn mynd ymlaen i egluro bod Defra, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, wedi cyhoeddi ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2020 a oedd yn seiliedig ar farn arbenigol Pwyllgor

[4] Nodiadau Esboniadol y Bil – Parliament.uk

Lles Anifeiliaid Fferm 2019 ar les anifeiliaid pan fyddant yn cael eu cludo rhwng lleoliadau. Cafwyd dros 11,000 o ymatebion, gydag 87% o'r ymatebwyr yn cytuno bod allforio da byw a cheffylau i'w pesgi cyn eu lladd yn ddiangen. Cyfeirir hefyd at ymgynghoriad yn yr Alban ar les anifeiliaid wrth iddynt gael eu cludo lle galwodd nifer fawr o'r ymatebwyr at am roi'r gorau'n raddol i'r arfer o allforio anifeiliaid i'w pesgi a'u lladdl.

## Llywodraeth Cymru

**25.** Nodir fel a ganlyn ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru:

> *"Mae lles anifeiliaid yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Dim ond pan fo angen y dylid cludo anifeiliaid, a dylai teithiau fod mor fyr ag y bo modd. Mae allforio da byw a cheffylau i'w lladd neu eu pesgi yn ddiangen oherwydd y gellid eu lladd neu eu pesgi yn ddomestig."*

**26.** Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi bod "angen dull cyson a chydlynol o wahardd a gorfodi ar draws Prydain Fawr er mwyn i waharddiad fod yn effeithiol." Mae'n mynd ymlaen i ddweud bod y Bil "yn cynnig cyfle amserol i gyflawni amcan polisi penodol a rennir ar draws Prydain Fawr. Mae hyn yn cynnwys yr angen posibl i sicrhau darpariaeth orfodi ledled Prydain Fawr, gan gynnwys trwy bwerau cydredol plws sy'n cydnabod egwyddorion datganoli yn briodol. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Bil fel y'i drafftiwyd." [5]

## Barn rhanddeiliaid

**27.** Fel rhan o waith y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn, gofynnodd yr Aelodau am farn sefydliadau lles anifeiliaid a sefydliadau ffermio perthnasol. Cafodd y Pwyllgor ymatebion gan RSPCA Cymru,[6] Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru[7] ac Undeb Amaethwyr Cymru.[8]

### RSPCA Cymru

**28.** Mae RSPCA Cymru yn croesawu'r Bil yn gryf. Nodir fel a ganlyn yn ei bapur tystiolaeth:

> *"The RSPCA strongly believes that all farm animals should be slaughtered as close to where they are reared as possible, resulting in any export trade being carcass-only. Being subject to long journeys in cramped conditions has the potential to cause animals to become mentally exhausted, physically injured,*

[5] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) – Senedd.Cymru
[6] Papur Tystiolaeth, RSPCA Cymru
[7] Papur Tystiolaeth, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru
[8] Papur Tystiolaeth, Undeb Amaethwyr Cymru

> *dehydrated and stressed, directly contradicting the Welsh Government's ambition to ensure that every animal has a good quality of life."*

**29.** Mae hefyd yn nodi, gan fod lles anifeiliaid wedi'i ddatganoli, mai Llywodraeth Cymru a fydd yn gwneud penderfyniadau penodol yn ymwneud â gorfodi gwaharddiad ar allforion byw – er enghraifft, rhoi pwerau i asiantaeth benodol o ran mynediad, archwilio, chwilio ac ymafael mewn perthynas â throseddau allforio.

**Undebau ffermio**

**30.** Mae'r undebau ffermio yn mynegi pryderon am y Bil. Maent yn arbennig o bryderus am golli cyfleoedd o ran y farchnad, ac felly incwm, i ffermwyr.

**31.** Er eu bod yn cydnabod bod allforio anifeilaid byw yn farchnad gymharol fach, o'i gymharu â chig ffres ac wedi ei rewi, mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru yn dadlau bod bodolaeth y sector hwn yn creu mwy o gystadleuaeth yn y farchnad. Mae'n dweud bod hyn yn arbennig o berthnasol pan fo niferoedd da byw yn uchel ar y farchnad ddomestig (y tymor brig) a phrisiau'r farchnad o dan bwysau.

**32.** Mae'n nodi y gall mewnforio cig oen o Seland Newydd ac Awstralia yn ystod y tymor brig ym Mhrydain leihau'r galw a'r pris domestig. Felly, mae cadw'r gallu i allforio anifeiliaid byw yn hybu cystadleuaeth ac yn cefnogi prisiau wrth gât y fferm.

**33.** Mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru hefyd yn pryderu nad yw'r Bil yn gwahardd mewnforio anifeiliaid byw i'w lladd. Er ei bod yn cydnabod nad yw'r math hwn o fewnforio yn digwydd ar hyn o bryd, nodir fel a ganlyn yn ei phapur tystiolaeth:

> *"Further to this, the Animal Welfare Bill also comes at a time when the UK Government has either concluded or is pursuing trade negotiations with countries which export large numbers of animals for fattening and/or slaughter and have lower standards of animal welfare in their production systems."*

**34.** Mae papur tystiolaeth Undeb Amaethwyr Cymru hefyd yn mynegi'r pryder hwn yn gryf gan ddweud:

> *"moves to ban UK live animal exports must ensure equivalent standards in trade deals to protect UK farmers from an asymmetric and unfair playing field. Indeed closing the door to domestic exportation whilst simultaneously opening the door to live animal exports from far flung trading partners is the epitome of hypocrisy and must be avoided."*

**35.** Dywedodd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru fod diogelu da byw ar bob cam o'r cylch cynhyrchu, gan gynnwys wrth iddynt gael eu cludo, boed hynny i’w lladd neu eu magu ymhellach, yn brif flaenoriaeth i ffermwyr Cymru. Dywed hefyd fod astudiaethau'n dangos yn gyson nad yw hyd y daith yn ffactor allweddol wrth sicrhau lles yr anifail ar adeg ei ladd. Mae'n dilyn, felly, ym marn Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru, nad yw croesi ffin tir neu fôr yn ffactor gwrthrychol i'w ystyried o ran sicrhau lles yr anifail.

**36.** Mae papur tystiolaeth Undeb Amaethwyr Cymru yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu byrhau'r amseroedd teithio yn ddomestig. Dywed fod tua 90% o ladd-dai wedi eu colli yng Nghymru dros y tri degawd diwethaf. Nodir bod y golled hon wedi arwain nid yn unig at deithiau hirach i anifeiliaid, ond hefyd at ostyngiad o ran cystadleuaeth yn y farchnad, llai o ddewis i gynhyrchwyr a defnyddwyr a mwy o risg o golli’r ardoll Gymreig o bosibl.

**37.** Yn ei phapur, mae Undeb Amaethwyr Cymru yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid i gefnogi lladd-dai yng Nghymru, gan gyfeirio at ‘gronfa lladd-dai llai’ Defra, sef cynllun grant cyfalaf yn Lloegr.[9] Mae'n tynnu sylw at yr angen i gefnogi lladd-dai llai i wella safonau cynhyrchiant a lles ac i annog pobl i fabwysiadu technolegau newydd.

**38.** Mae Undeb Amaethwyr Cymru hefyd yn mynegi pryderon nad yw'r gwaharddiad arfaethedig yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae'n dadlau mai nod y Bil yw atal allforio anifeiliaid byw i ladd-dai anhysbys sy’n debygol o fod â safonau is o ran lles. Yn ei phapur, dywed fod mwyafrif helaeth yr allforion byw o'r DU yn mynd i wledydd sydd â safonau uchel o ran lles. O ganlyniad, mae'n credu mai gwleidyddiaeth sydd wrth wraidd y gwaharddiad arfaethedig, felly, ac mai cam symbolaidd yn unig ydyw, yn hytrach na cham sy’n seiliedig ar dystiolaeth, a fyddai'n arwain at welliannau gwirioneddol ac amlwg o ran lles.

## Barn y Pwyllgor

**39.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r gwaharddiad arfaethedig ar allforio gwartheg, defaid, geifr, moch a cheffylau i'w lladd, gan gynnwys i’w pesgi i’w lladd wedi hynny fel yr amlinellir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Felly, mae’r Pwyllgor yn cefnogi’r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn ac yn argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad ar gyfer y Bil.

**40.** Fodd bynnag, mae'r Aelodau'n cydnabod y pryderon a godwyd gan yr undebau ffermio, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â mewnforio anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid gan bartneriaid masnachu y mae eu safonau’n is na'r DU o ran lles anifeiliaid. Mae’r Aelodau'n rhannu’r pryderon am gau lladd-dai yng Nghymru a'r ffaith bod rhai anifeiliaid yn cael eu cludo ar deithiau hir i'w lladd yn ddomestig.

[9] Cyhoeddiad am y gronfa lladd-dai llai – gov.uk

**41.** Mae'r Aelodau hefyd yn siomedig nad yw Asesiad Effaith y Bil na'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cynnwys ystadegau ar lefel Cymru. Byddai'r data hyn wedi bod yn ddefnyddiol i ddangos nifer bosibl yr anifeiliaid byw a gaiff eu hallforio o Gymru i'w lladd, a hefyd yr effaith ar fusnesau fferm Cymru. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu gweld yr ystadegau hynny mewn Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y dyfodol i helpu i ddeall effaith Biliau perthnasol San Steffan ar Gymru.

**Recommendation 1.** Dylai'r Senedd roi ei chydsyniad i'r Bil Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw).

**Recommendation 2.** Pan fydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar gytundebau masnach yn y dyfodol, rhaid iddi sicrhau bod effaith y Bil hwn yn cael ei hystyried o ran cystadleuaeth, prisiau wrth gât y fferm a'r safonau lles anifeiliaid sy'n berthnasol i gynnyrch a gaiff ei fewnforio.

**Recommendation 3.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a monitro'r rhwydwaith lladd-dai yng Nghymru.

**Recommendation 4.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod lladd-dai Cymru yn cael eu cefnogi'n briodol i sicrhau na fydd rhagor ohonynt yn cau, yn ysbryd y Bil Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw), er mwyn lleihau'r pellter y caiff anifeiliaid eu cludo i'w ladd yn ddomestig. Gallai hyn gynnwys ystyried a fyddai dull tebyg i'r 'gronfa lladd-dai llai' yn Lloegr yn briodol i Gymru.

Dylai Llywodraeth Cymru, lle y bo'n bosibl, nodi ystadegau Cymru yn mewn Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol yn y dyfodol i helpu Pwyllgorau i ddeall effaith Biliau perthnasol San Steffan ar Gymru. Pan na fydd yr ystadegau hyn ar gael, dylai Llywodraeth Cymru nodi hynny yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.